# Darparu gofal nyrsio cyffredinol i gleifion mewnol milfeddygol mewn milfeddygfa

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn cynnwys darparu gofal nyrsio cyffredinol i gleifion mewnol milfeddygol mewn milfeddygfa yn unol â chynllun gofal cleifion milfeddygol a ffurfiwyd ar y cyd â’r llawfeddyg milfeddygol.

Bydd darpariaeth gofal nyrsio cyffredinol yn cynnwys gweinyddu gofal nyrsio, fel darparu maeth a hylifau, gweinyddu therapi hylifol, cadarnhau cyflwr y claf mewnol milfeddygol, monitro eu cynnydd, ymdrin â rhwymau, eli a monitro clwyfau.

Mae’r gwaith sydd wedi ei gynnwys yn y safon hon yn chwarae rhan yn rheoli heintiau ac atal trosglwyddo clefydau heintus.

Mae’r safon hon yn addas ar gyfer nyrsys milfeddygol cofrestredig.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau cyflwr y claf mewnol milfeddygol a lefel ofynnol y gofal nyrsio cyffredinol i'w ddarparu yn unol â chynllun gofal y cleifion mewnol milfeddygol yn unol â chyfarwyddyd y llawfeddyg milfeddygol
2. gwirio a chydosod cyflenwadau o'r offer a'r deunyddiau gofynnol i gyflawni'r gofal nyrsio cyffredinol gofynnol
3. asesu'r risg i'ch iechyd a'ch diogelwch chi a chydweithwyr wrth ddarparu gofal nyrsio cyffredinol i gleifion mewnol milfeddygol
4. dewis a gweithredu gweithdrefnau rheoli heintiau gofynnol ymarfer milfeddygol wrth ddarparu gofal nyrsio cyffredinol i gleifion mewnol milfeddygol
5. asesu anghenion trin a lles y claf mewnol milfeddygol a'r ffordd y gellir mynd i'r afael â nhw neu eu heffeithio tra'u bod yn eich gofal
6. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol (PPE) gofynnol wrth ddarparu gofal nyrsio cyffredinol i gleifion mewnol milfeddygol
7. trin y claf mewnol milfeddygol gan ddefnyddio'r dulliau a'r offer atal gofynnol
8. darparu ymyrraeth nyrsio briodol i gynorthwyo'r claf
9. monitro cleifion mewnol milfeddygol yn unol â'u cyflyrau clinigol yn unol â chyfarwyddyd gan y llawfeddyg milfeddygol
10. gwaredu deunydd dros ben a gwastraff a gynhyrchir gan y filfeddygfa yn unol â deddfwriaeth berthnasol a gweithdrefnau ymarfer milfeddygol
11. cwblhau cofnodion gan ddefnyddio systemau gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol ac ymarfer milfeddygol
12. cydymffurfio â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol iechyd a lles anifeiliaid
13. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau busnes

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y broses nyrsio a'r ystod o fodelau nyrsio sydd ar gael
2. pam y mae'n bwysig cadarnhau cyflwr y claf mewnol milfeddygol a'r gofal nyrsio cyffredinol gyda'r llawfeddyg milfeddygol
3. gweithdrefnau rheoli heintiau gofynnol ymarfer milfeddygol wrth ddarparu gofal nyrsio cyffredinol i gleifion mewnol milfeddygol
4. y mathau o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sy'n ofynnol ar gyfer darparu gofal nyrsio cyffredinol i gleifion mewnol milfeddygol
5. sut a phryd y dylid monitro cleifion mewnol milfeddygol a sut gall eu cyflwr effeithio ar y monitro
6. y dulliau monitro a ddefnyddir yn ystod mathau gwahanol o ofal nyrsio cyffredinol
7. y camau sydd eu hangen wrth nyrsio cleifion mewnol milfeddygol â chyflyrau heintus neu filheintus
8. yr offer a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth ddarparu mathau gwahanol o ofal nyrsio cyffredinol
9. sut i osod ac atal rhywogaethau gwahanol o gleifion mewnol milfeddygol ar gyfer gofal nyrsio cyffredinol gwahanol
10. pwysigrwydd monitro cleifion mewnol milfeddygol tra'n darparu gofal nyrsio cyffredinol
11. mathau a meintiau maeth a hylif sydd eu hangen gan gleifion mewnol milfeddygol gwahanol
12. technegau sylfaenol rhwymo a gweinyddu eli
13. sut i asesu a monitro clwyfau a gweinyddu eli
14. dangosyddion newid yng nghyflwr cleifion mewnol milfeddygol yn ystod gofal nyrsio cyffredinol a'r rhesymau dros hysbysu llawfeddygon milfeddygol ynghylch newidiadau o'r fath
15. sut i waredu deunydd dros ben a gwastraff a gynhyrchir gan y filfeddygfa yn unol â deddfwriaeth berthnasol a gweithdrefnau ymarfer milfeddygol
16. eich cyfrifoldebau proffesiynol fel nyrs filfeddygol gofrestredig
17. eich cyfrifoldebau o ran iechyd a lles anifeiliaid yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer
18. eich cyfrifoldeb yn unol â deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau busnes

## Geirfa

Cynllun gofal cleifion mewnol milfeddygol: cynllun gofal milfeddygol wedi ei deilwra yn unigol ar gyfer cleifion milfeddygol gwahanol, gallai hyn fod yn gleifion mewnol neu gleifion sydd yn derbyn gofal gartref.

Gofal nyrsio cyffredinol: darparu maeth a hylifau, gweinyddu therapi hylifol, cadarnhau cyflwr y claf mewnol milfeddygol, monitro eu cynnydd, ymdrin â rhwymau, eli a monitro clwyfau.

LANRVN6

Darparu gofal nyrsio cyffredinol i gleifion mewnol milfeddygol mewn milfeddygfa

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANRVN10 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Nyrs milfeddygol |
| **Cyfres/Set** | Nyrsio Milfeddygol a Gwasanaethau Ategol |
| **Geiriau Allweddol** | gofal anifeiliaid; hylifau; monitro |